

Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun 6ed o Ragfyr 2021 am 7:00pm

Presennol: Cynghorydd Bethan Lawton (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Alan H. Jones, Geraint Evans, Richard Evans, Arwel Pierce

1. Ymddiheuriadau: Dim

2. Datgan diddordeb: Dim

3. Derbyn cofnodion 18 Hydref 2021:

PENDERFYNIAD: I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir.

4. Derbyn cofnodion 19 Hydref 2021:

PENDERFYNIAD: I dderbyn y cofnodion fel rhai cywir.

5. Cyfrifon i'w talu:

PlayQuest	Offer newydd	101763	£3,415.80
B Gwilym	Cyflog	101764	£376.84
Cyllid a Thollau EM	YG	101765	£94.20
B Gwilym	Nwyddau swyddfa	101766	£5.60
B Gwilym	Cae chwarae	101767	£17.95
B Gwilym	Teleffon	101768	£67.50
Cyngor Gwynedd	Toiled	101769	£2,000.00

PENDERFYNIAD: I dalu'r anfonebau uchod.

6. Cwyn gan aelod o'r cyhoedd - diffyg cysgodfa bws ger Pont y Mileniwn:

Nid oedd diweddariad.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

7. Cais gan aelod o'r cyhoedd am beiriant diffibrileiddio - diweddariad:

Yr oedd cais am arian i brynu peiriant wedi ei gyflwyno o gronfa Llywodraeth Cymru,

PENDERFYNIAD: I'w drafod y mis canlynol.
I gysylltu gyda Scottish Power er mwyn ceisio cael mesurydd trydan newydd er mwyn medru talu drwy debyd uniongyrchol.

8. Cwyn gan aelod o'r cyhoedd – sŵn o dafarn y Peniarth - diweddariad:

Yr oedd ymateb wedi ei dderbyn gan Cyngor Gwynedd yn gofyn am dystiolaeth ar ffurf dyddiadur.

PENDERFYNIAD: I adael y mater ar y bwrdd tan y gwanwyn.

9. Barclays - cau cangen Porthmadog:

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

10. Clwb Ieuenctid - diweddariad:

PENDERFYNIAD: I'w roi fel eitem ar yr agenda yng nghyfarfod mis Ionawr 2022.

11. Comisiwn Elusennau - diweddariad:

Adroddwyd bod Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wedi cynghori'r Clerc i ofyn am gymorth Cyngor Gwynedd yn y mater o drosglwyddo tir.

Cafwyd trafodaeth am rôl cynghorwyr wrth iddynt eistedd ar bwyllgor elusen RJ Roberts (Dolgoch)

PENDERFYNIAD: I edrych ar sut mae'r Cyngor yn gweithredu fel ymddiriedolwr corfforaethol yng nghyfarfod blynyddol y cyngor ym mis Mai.

12. Cyngor Gwynedd - Priffyrdd a Bwrdeistrefol - arwydd dim chwarae pêl:

Adroddwyd bod Cyngor Gwynedd wedi gosod arwydd dim chwarae gemau pêl.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

13. Cyngor Gwynedd - Adroddiad Adolygu Drafft - Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn:

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

14. Cadwch Cymru'n Daclus - ymgyrch baw ci:

Yr oedd posteri wedi ei dderbyn fel rhan o ymgyrch baw ci.

PENDERFYNIAD: I osod y posteri ar yr hysbysfwrdd.

15. Cyfoeth Naturiol Cymru - cynnig i fynychu cyfarfod:

PENDERFYNIAD: I ofyn am gyfarfod safle er mwyn edrych ar pedair safle, gyda tai Dolithel a thir ger Ynys-y-Maengwyn yn cael blaenoriaeth, Dol y Felin, a thyllau signo sydd yn croesi'r ffos fawr. Y Cynghorwyr Alan J Jones, Richard Evans ag Arwel Pierce i gynrychioli'r cyngor yn y cyfarfod.

16. Clwb Pêl-droed Tywyn a Brynchrug - rhoi trwydded neu prydles:

PENDERFYNIAD: I adael y mater ar y bwrdd nes bod y trosglwyddiad tir i'r elusen wedi ei gwblhau. I anfonebu y clwb pêl-droed am y gemau pan ddefnyddiwyd y cawodydd yn y Pafiliwn.

17. Cae Chwarae - Adroddiad:

Adroddwyd y canlynol:

-nid oedd polion y ffens wedi eu gwneud

-ysbwriel/preniau o gwmpas y Pafiliwn oherwydd bod y clwb pêl-droed wedi bod yn gwneud gwaith cynnal a chadw

-y clo ar y giât yn gweithio

-y stand wedi ei lanhau

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

18. Cae Chwarae – prynu offer chwarae newydd:

Adroddwyd bod cais y cyngor am grant wedi bod yn llwyddiannus, a bod y cyngor wedi derbyn £11,386.

PENDERFYNIAD: I ddefnyddio'r arian grant i brynu offer wedi eu gwneud o plastig sydd wedi ei ailgylchu o gwmni PlayQuest.

19. Cae Chwarae – dyfynbris am osod canllaw ger y toiled anabl:

PENDERFYNIAD: I dderbyn dyfynbris Jones & Jones.

20. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Nodwyd y canlynol gan y Cyngorydd Sir:

-wedi mynychu cyfarfod yr wythnos flaenorol gyda'r Bwrdd Iechyd, gyda cyfarfodydd i'w cynnal pob chwe wythnos –
cafwyd wybod bod meddyg yn meddygfa Tywyn yn awyddus i barhau i weithio fel cyflogai i'r Bwrdd Iechyd, pe byddai'r
Bwrdd Iechyd yn rheoli'r feddygfa
-yr oedd y Bwrdd Iechyd wedi adrodd bod oddeutu 1,000 o swyddi angen eu llenwi yn ardal BIPBC

Nodwyd bod angen tocio y sietyr sydd ar y llwybr beicio.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

21. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

PENDERFYNIAD: I ysgrifennu at Gyngor Gwynedd er mwyn gofyn iddynt atgyweirio dwy fainc ger y safle bus.
I anfon llythyr at Henaduriaeth Meirionnydd yn gofyn iddynt sicrhau bod llwybr taclus sydd yn
addas i'r henoed a'r anabl i gael mynediad at fedd Mari Jones, gan hefyd ofyn am yr hen
bwynt mynediad, yw'r pwynt yma wedi ei werthu.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:19pm

Llofnod y Cadeirydd